Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu. Stay Safe. Stay Learning.

# Cyngor i arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion ac UCDau ar sut i barhau â busnes ysgol ac UCD yn ystod pandemig Covid-19

Fersiwn 1.0 23 Ebrill 2020



# Parhad dysgu

Mae'r ymateb i COVID-19 wedi newid ein bywydau yn sylweddol. Yn y cyd-destun heriol hwn, amharwyd ar y system addysg ond mae'n parhau i fod o bwys canolog.

Yn ystod y cyfnod hwn, pan na all y rhan fwyaf o ddysgwyr fynychu lleoliadau ac ysgolion yn gorfforol, mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn gweithio ar draws y system addysg mewn nifer o ffyrdd i gynnig cymorth i arweinwyr, llywodraethwyr, ymarferwyr, rhieni, gofalwyr a dysgwyr mewn meysydd blaenoriaeth allweddol.

Lansiodd y Gweinidog Addysg raglen 'Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu' yng Nghymru ar 20 Ebrill i gefnogi gweithwyr proffesiynol ym maes addysg a dysgwyr wrth i ni ymateb i bandemig COVID-19. Fel rhan o'r rhaglen hon mae Estyn wedi gweithio ar y cyd â CCAC a chonsortia gwella ysgolion rhanbarthol, ac wedi datblygu'r cyngor hwn ar gyfer ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) i'w cefnogi i barhau â busnes ysgol/UCD. Nid yw'r ddogfen hon yn statudol.

Mae'r ddogfen hon yn rhan o'r gwaith hwnnw ac mae'n gysylltiedig â'r rhaglen waith parhad dysgu 'Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu'.

Hoffem ddiolch i'r aelodau canlynol o'r grŵp llywio am eu cyfraniad sylweddol at ddatblygu'r cyngor hwn:

- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru
- Consortia rhanbarthol
- Awdurdodau esgobaethol yr eglwys'r.

Hoffem ddiolch i'r partneriaid canlynol am eu cyfraniadau:

- Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol yng Nghymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Diolch hefyd i'r undebau a'r arweinwyr ysgol a rannodd eu hadborth ar ddrafftiau o'r cyngor gyda ni.

Am fwy o wybodaeth ewch i
hwb.llyw.cymru/cadwnddiogeldalatiiddysgu

Cefnogir gan
**Llywodraeth Cymru**
Supported by
**Welsh Government**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad ac egwyddorion sylfaenol** | **1** |
| **Gweithio'n effeithiol o gartref** | **2** |
| **Cyfarfodydd ac arferion** | **6** |
| **Llywodraethiant** | **8** |
| **Cefnogaeth benodol i ysgolion llai ac UCDau ar wneud defnydd o dechnoleg ac i ysgolion mwy cymhleth i reoli cymhlethdod** | **10** |
| **Gwneud defnydd cynhyrchiol o dechnoleg ddigidol** | **11** |
| **Crynodeb i arweinwyr ysgolion ac UCDau o egwyddorion allweddol i gefnogi parhad busnes ysgolion ac UCDau gan ddefnyddio technoleg lle'n briodol** | **13** |

## Cyflwyniad

Mae staff mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) ledled Cymru wedi dangos dewrder o dan amgylchiadau heriol. Bu’n rhaid iddynt addasu’n gyflym i drefniadau newydd ac maent yn dod i delerau â ffordd newydd o weithio. Maent yn dangos egni ac ymroddiad wrth greu a chynnal gwahanol ffyrdd o gefnogi disgyblion a’u cydweithwyr, gan flaenoriaethu lles tra’n parhau â busnes ysgol neu UCD yn ystod y pandemig Covid-19. Nod y ddogfen hon yw cefnogi arweinwyr ysgolion ac UCDau i fyfyrio ar eu dulliau o reoli busnes ysgol neu UCD o bell ac ystyried a allai unrhyw gyngor yn y ddogfen hon eu helpu i addasu eu trefniadau cyfredol.

**Egwyddorion sylfaenol:**

- Lles staff, disgyblion a rhieni yw’r prif flaenoriaeth.
- Dylid ystyried yn ofalus beth sydd yn ymarferol gyraeddadwy yn y sefyllfa bresennol. Gall staff ysgol ac UCDau, disgyblion a rhieni fod yn rhannu eu cartrefi â’u gwaith, wrth geisio cydbwyso eu cyfrifoldebau gofalu hefyd. Mae’n bwysig sicrhau cydbwysedd addas rhwng bywyd cartref a bywyd gwaith er mwyn osgoi pwysau diangen.
- Bydd dulliau pob ysgol ac UCD o weithio yn amrywio yn ôl cyd-destun, a’r dechnoleg sydd ar gael iddynt.
- Bydd ysgolion ac UCDau ar wahanol gamau o ran datblygu eu cefnogaeth ar gyfer parhad dysgu yn y cartref. Nid yw’r cyngor hwn yn ceisio disodli arfer effeithiol cyfredol ond gallai helpu ysgolion ac UCDau i’w fireinio a’i ddatblygu ymhellach.

Dogfen ddrafft yw hon. Os oes gennych unrhyw adborth neu awgrymiadau ynghylch y cynnwys, ebostiwch Estyn ar: ymholiadau@estyn.llyw.cymru.

## Gweithio'n effeithiol o gartref

Mae'r pandemig Covid-19 presennol wedi golygu bod llawer o staff ysgolion ac UCDau bellach yn gweithio gartref am naill ai'r mwyafrif neu drwy'r amser. O ystyried na fydd y mwyafrif o staff wedi profi gweithio gartref i raddau helaeth o'r blaen, ac nad yw'r sefyllfa gyda'r pandemig yn debygol o newid yn y dyfodol agos, mae'n hanfodol bod penaethiaid/athrawon sydd â gofal a llywodraethwyr/aelodau pwyllgor rheoli yn cymryd camau cyflym ac effeithiol i amddiffyn a chefnogi staff ysgolion ac UCDau sy'n gweithio gartref.

Mae awdurdodau lleol ac awdurdodau esgobaethol eisoes wedi cyhoeddi arweiniad a chefnogaeth i'w hysgolion ac UDAu. Mae'n bwysig bod ysgolion ac UDAu yn dilyn y gweithdrefnau hyn.

Nod ein canllaw yw ategu'r canllawiau presennol gan gyrff cyflogi trwy ymhellach:

- gefnogi penaethiaid/athrawon sydd â gofal a llywodraethwyr i gyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol tuag at eu staff
- ddarparu strategaethau i gefnogi iechyd a lles staff ysgolion ac UCDau sy'n gweithio gartref
- awgrymu ffyrdd i helpu staff ysgolion ac UCDau i weithio gartref

**Disgwyliadau a mathau o waith**

Dylai penaethiaid/athrawon sydd â gofal a rheolwyr llinell roi cyfeiriad clir i'r holl staff sy'n gweithio gartref ynglŷn â'u gwaith.

Dylai gweithgareddau a gytunir:

- gymryd i ystyriaeth sefyllfa gartref yr aelod o staff unigol
- gyfateb yn addas â phrofiad a medrau yr aelod o staff
- gael terfyn amser clir a rhesymol os yn briodol

**Iechyd a diogelwch**

Mae canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (dolen i'r ddogfen Saesneg: guidance) yn nodi:

Pan fydd rhywun yn gweithio gartref, yn barhaol neu dros dro, fel cyflogwr dylech ystyried:

- *Sut y byddwch chi'n cadw mewn cysylltiad â nhw?*
- *Pa weithgaredd gwaith y byddant yn ei wneud (ac am ba hyd)?*
- *A ellir ei wneud yn ddiogel?*
- *A oes angen i chi roi mesurau rheoli ar waith i'w hamddiffyn?*

Er y bydd y math o waith y mae staff ysgol ac UCDau yn debygol o'i wneud gartref yn debygol o fod â risg isel, dylent ddal i roi ystyriaeth ddyledus i weld a ydynt yn gweithio mewn modd diogel. Dylent roi sylw arbennig i'r offer maen nhw'n ei ddefnyddio (desg, cadair, offer sgrin arddangos). Yn ogystal â chanllawiau a rennir

gan yr awdurdod lleol ac awdurdod esgobaethol mae gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ganllawiau pellach ar weithio'n ddiogel gydag offer sgrin arddangos (dolen i'r ddogfen Saesneg: guidance).

Dylai rheolwyr llinell a staff sy'n gweithio gartref ystyried goblygiadau posibl gweithio gartref ar les ac iechyd emosiynol y staff hyn (gweler isod).

Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon a damweiniau diogelwch sy'n digwydd yn ystod oriau gwaith yn y ffordd arferol, gan gadw at ofynion lleol ac esgobaethol.

**Offer**

Gall staff sy'n gweithio gartref naill ai gael offer cyfrifiadurol a/neu dechnoleg arall gan yr ysgol neu'r UCD neu gael eu hawdurdodi i ddefnyddio eu hoffer eu hunain os oes ganddynt fynediad rhesymol gartref eisoes, er enghraifft er mwyn gwirio e-byst. Dylai staff sy'n fodlon defnyddio eu hoffer eu hunain sicrhau eu bod yn gallu gwneud hynny yn unol â pholisïau defnyddio TG a diogelu data'r ysgol neu'r UCD (gweler isod).

Os yw staff yn defnyddio eu ffôn eu hunain ar gyfer galwadau gwaith, dylid cytuno ymlaen llaw ar drefniadau ar gyfer adennill costau yr aethpwyd iddynt. Dylai staff sicrhau bod rhifau personol yn cael eu hatal cyn ddechrau galwad ffôn. Mae'n annhebygol y bydd ysgolion neu UCDau yn gallu ad-dalu staff am gostau fel gwresogi, goleuo neu fand eang, fodd bynnag, mae Cyllid a Thollau EM wedi cyhoeddi canllawiau (dolen i'r ddogfen Saesneg: guidance) ynghylch treuliau trethadwy i'r rheini sydd bellach yn gweithio gartref. Ni ddylid disgwyl i staff dalu am unrhyw offer ychwanegol.

**Diogelu data**

Dylai staff sy'n gweithio gartref barhau i ddilyn holl bolisïau arferol yr ysgol neu'r UCD o ran diogelu data. Maen nhw'n gyfrifol am sicrhau bod gwybodaeth sy'n ymwneud â'r ysgol neu'r UCD, er enghraifft mewn dogfennau, ffeiliau, cyfrifon ar-lein, neu e-byst bob amser yn cael ei chadw'n ddiogel. Ni ddylent fynd ag unrhyw ddogfennau corfforol sy'n cynnwys gwybodaeth gyfrinachol adref oni bai bod ganddynt gytundeb penodol i wneud hynny a bod ganddynt fodd i'w cloi i ffwrdd yn ddiogel. Rhaid peidio â defnyddio offer cyfrifiadurol cartref ar gyfer unrhyw waith sy'n cynnwys gwybodaeth gyfrinachol oni bai eich bod yn gweithio trwy gyfleusterau mynediad o bell diogel yr ysgol neu'r UCD. Rhaid cadw cyfrineiriau'n gyfrinachol ac ni ddylid gadael cyfrifon neu ffeiliau ar agor ar y cyfrifiadur lle gallai aelodau'r teulu neu eraill gael mynediad atynt. Dylai staff adrodd unrhyw doriad cyfrinachedd, neu dorri cyfrinachedd o bosibl, i'w rheolwr llinell ar unwaith.

**Gweithio hyblyg**

Nid yw'r rhain yn amgylchiadau arferol a bydd yn rhaid i lawer o staff sy'n gweithio gartref gydbwyso eu cyfrifoldebau gwaith a theulu. Dylai penaethiaid/athrawon sydd â gofal a rheolwyr llinell sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n glir i'w staff y dylai diogelwch a lles dibynyddion gael blaenoriaeth dros waith. Fodd bynnag, dylai staff gymryd pa gamau rhesymol bynnag y gallant i gyflawni eu cyfrifoldebau gwaith mewn ffordd nad yw'n niweidiol i les eu teulu. Gall hyn gynnwys staff yn mabwysiadu oriau gwaith

hyblyg, ond dim ond pan gytunwyd ar hyn ymlaen llaw rhwng yr aelod staff a'i reolwr llinell.

**Iechyd emosiynol a lles**

Mae gweithio gartref yn cyflwyno ystod o heriau, yn enwedig i'r staff hynny sydd ag ychydig neu ddim profiad o wneud hynny. Yn benodol, gall absenoldeb cyswllt rheolaidd o ddydd i ddydd â disgyblion a chydweithwyr arwain at deimladau o unigedd. Mae'n hanfodol bod penaethiaid/athrawon sydd â gofal yn ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan eu corff cyflogi i sicrhau bod pob aelod o staff yn gwbl ymwybodol o amrywiaeth o strategaethau a dulliau ar gyfer cynnal iechyd emosiynol da wrth weithio gartref. Yn ogystal, dylai'r corff llywodraethu/pwyllgor rheoli sicrhau ei fod yn darparu cefnogaeth addas ar gyfer iechyd emosiynol y pennaeth/athro sydd â gofal.

Dolen i'r ddogfen Saesneg: Guidance on supporting your emotional health while working from home

Gall mwy o unigedd fod yn heriol ac, mewn rhai achosion, gall arwain at bobl yn teimlo'n ddatgysylltiedig neu'n isel. Gallai'r effeithiau ar les gynnwys pryder, unigedd ac unigrwydd. Mae bod yn bell oddi wrth berthnasoedd cefnogol yn y gwaith hefyd yn effeithio'n negyddol ar les.

Dylai rheolwyr gadw cysylltiad â'u timau, naill ai gyda'i gilydd neu un i un, gyda chyswllt rheolaidd trwy alwadau a chynadledda fideo, i weld sut maen nhw. Sicrhewch fod gan staff ddealltwriaeth dda o'r hyn sy'n ofynnol a chysylltwch â nhw'n rheolaidd i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad.

Dylai rheolwyr a staff ystyried sut i reoli eu hiechyd emosiynol a'r effaith y gallai Covid-19 ei gael ar eu teuluoedd. Mae'r ddogfen hon gan y Sefydliad Iechyd Rhyngwladol: WHO Emotional health and Psychosocial Considerations During COVID-19 Outbreak guidance , yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ar sut i amddiffyn eich hun a bod yn gefnogol i eraill, gan gynnwys gofalu am blant ac oedolion hŷn.

Mae canllawiau'r BBC ar Coronavirus: BBC Guidance on Coronavirus: How to protect your emotional health hefyd yn rhoi awgrymiadau defnyddiol ar amddiffyn ein hiechyd emosiynol gan gynnwys cael seibiannau o'r cyfryngau cymdeithasol a bod yn ofalus bod yr hyn a ddarllenwn yn dod o ffynhonnell ddibynadwy fel gwefannau'r llywodraeth a'r GIG. Mae cadw mewn cysylltiad â phobl a chael amseroedd cysylltu rheolaidd, ynghyd â sicrhau cydbwysedd rhwng cael trefn arferol a sicrhau bod gan bob diwrnod rywfaint o amrywiaeth yn allweddol.

Mae Anxiety UK hefyd wedi datblygu cyngor a chefnogaeth ar-lein trwy eu blogiau gwefan: iechyd a mathau eraill o bryder (health and other forms of anxiety) a Covid-19 a phryder (COVID-19 and anxiety). Maent yn rhoi awgrymiadau defnyddiol ar beth i'w wneud i amddiffyn eich lles meddyliol tra'n hunan-ynysu a sut i ddelio â materion iechyd emosiynol fel anhwylderau pryder. Mae gan Anxiety UK sianel youtube sydd yn cynnwys cyfres o weminarau cymorth pwrpasol sy'n helpu unrhyw un sydd â phryderon neu bryder ynghylch Covid-19 (Anxiety UK youtube channel).

**Salwch**

Yn unol â chanllawiau a gweithdrefnau awdurdodau lleol ac awdurdodau esgobaethol, dylai staff nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd salwch adrodd hyn yn brydlon i'w rheolwr llinell dros y ffôn a dilyn gweithdrefnau'r ysgol.

## Cyfarfodydd ac arferion

Mae cyfarfodydd ac arferion yn bwysig i bob ysgol ac UCD allu gweithio'n effeithlon ac yn effeithiol. Mae ysgolion ac UCDau wedi ei chael yn angenrheidiol addasu eu cyfarfodydd a'u harferion i ddiwallu anghenion y sefyllfa bresennol a, lle bo hynny'n briodol, gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg i wneud hynny. Mae arweinwyr hefyd wedi ei chael yn ddefnyddiol cadw'n wybodus ynghylch canllawiau diweddaraf yr awdurdod lleol ynghylch protocolau Adnoddau Dynol. Mae'r canlynol yn darparu rhai egwyddorion arweiniol sydd wedi bod yn ddefnyddiol i ysgolion ac UCDau.

### Llinellau cyfathrebu

- Sicrhau bod llinellau cyfathrebu yn glir - e.e. cael ‘pyramid cyfathrebu’ i rannu negeseuon yn gyflym ac yn systematig
- Profi technoleg a systemau cyfathrebu i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn gallu eu defnyddio
- Blaenoriaethu'r hyn sydd angen ei gyfathrebu er mwyn osgoi cyfarfodydd/sesiynau briffio diangen
- Ystyried ystod o ddulliau cyfathrebu - e.e. cyfarfodydd rhithwir, gweithio ar ddogfennau a rennir, sesiynau briffio, galwadau ffôn, e-byst
- Bod yn ymwybodol o'r dechnoleg a'r amser sydd ar gael i staff, yn ogystal â thrafferthion cysylltedd posib
- Bod yn ymwybodol o wahanol lefelau hyder staff o ran ddefnyddio llwyfannau digidol a darparu cefnogaeth lle bo angen
- Adolygu effeithiolrwydd prosesau cyfathrebu yn rheolaidd a gwirio gyda staff bod systemau yn effeithiol ac yn hylaw
- Holi barn a syniadau staff ar sut i weithio'n effeithiol o dan yr amgylchiadau cyfredol a'r dulliau cyfathrebu sy'n well ganddynt
- Cadw mewn cysylltiad â chynrychiolydd undeb yr ysgol/UCD/canllawiau undebau
- Canfod ffyrdd i staff weithio gyda'i gilydd mewn timau er mwyn cefnogi ei gilydd, rhannu syniadau ac adnoddau, dosbarthu cyfrifoldebau, osgoi dyblygu a lleihau llwyth gwaith

### Arferion cyfathrebu

- Sefydlu arferion ar gyfer cyfathrebu â staff a dal i fyny yn rheolaidd
- Trefnu cyfathrebu rheolaidd ag unigolion, grwpiau o staff a llywodraethwyr i wirio eu lles ac i arwain/goruchwylio gwaith yr ysgol/UCD, gan ddefnyddio'r dechnoleg sydd ar gael lle bo hynny'n briodol
- Ystyried sut i rannu gwybodaeth breifat neu sensitif
- Cael system ganolog e.e. Google Docs/Timau Microsoft i gadw’r holl wybodaeth

### Arferion ar gyfer cyfarfodydd

- Bod yn hyblyg wrth amseru cyfarfodydd
- Cael systemau wrth gefn ar gyfer pobl na allant fynychu cyfarfodydd neu sydd â phroblemau cysylltedd - e.e. recordio cyfarfodydd neu wneud nodyn o bwyntiau a chamau gweithredu allweddol

- Sefydlu egwyddorion arweiniol ar gyfer gweithio ar y cyd a chyfarfodydd rhithwir (e.e. amseroedd cychwyn a gorffen clir, diffodd meicroffonau pan nad ydynt yn siarad)
- Cytuno ar fecanwaith adrodd yn ôl ar gyfer cyfarfodydd
- Darparu gwybodaeth glir cyn pob cyfarfod a chofnodion clir o'r canlyniadau a'r camau y cytunwyd arnynt yn dilyn cyfarfodydd

**Cynnal cyfarfodydd rhithwir**

Gall cynnal cyfarfodydd rhithwir fod yn heriol, ond mae llawer o egwyddorion cynnal cyfarfodydd effeithiol yn dal i fod yn berthnasol os cynhelir cyfarfodydd rhithwir. Mae ysgolion/UCDau wedi ei chael yn ddefnyddiol sefydlu ychydig o egwyddorion arweiniol. Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys:

- Sicrhau bod cyfranogwyr yn diffodd eu meicroffonau pan nad ydynt yn siarad
- Cael dull i nodi a yw rhywun eisiau cyfrannu - e.e. rhoi eu llaw i fyny neu ddefnyddio'r cyfleuster 'sgwrsio' i ysgrifennu neges
- Cael amser cychwyn a gorffen clir
- Defnyddio'r cyfleuster rhannu sgriniau er mwyn mynd trwy ddogfennau
- Recordio'r cyfarfod fel y gall y rhai na allant gymryd rhan wylio'r cyfarfod ar amser sy'n gyfleus iddynt
- Nodi'r pwyntiau a'r gweithredoedd allweddol a'u rhannu, yn enwedig gyda'r rhai nad oes ganddynt y dechnoleg na'r amser i fynychu'r cyfarfod rhithwir

**Staffio, recriwtio ac anwytho**

Dylai ysgolion ac UCDau ddilyn pob cyfarwyddyd gan yr awdurdod lleol a'r awdurdod esgobaethol ar staffio, recriwtio ac anwytho cyn rhoi unrhyw drefniadau yn eu lle.

Dylai ysgolion ac UCDau hefyd ystyried:

- Rhoi arweiniad clir ar absenoldeb salwch, cyfrifoldebau gofalu a threfniadau ar gyfer gweithio'n hyblyg
- Cadw cofnodion sylfaenol o staff sy'n mynychu adeilad yr ysgol/UCD ac absenoldeb salwch
- Cadw cofnod o ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol/UCD/hwb
- Cynllunio mecanwaith addas i sicrhau y gall prosesau recriwtio barhau ar-lein a'u bod yn deg ac yn gadarn
- Sefydlu cyswllt ag unrhyw ddechreuwyr newydd ac egluro gweithdrefnau anwytho a disgwyliadau sylfaenol

**Cynllunio wrth gefn**

- Sefydlu cynllun arweinyddiaeth wrth gefn a chynllun ar gyfer pan nad yw aelodau eraill o staff ar gael i weithio
- Cadw cofnod o unrhyw gostau ychwanegol yr eir iddynt o ganlyniad i'r pandemig
- Cynllunio ar gyfer arferion hanfodol fel dewis opsiynau a threfniadau trosglwyddo
- Darparu gwybodaeth wedi'i diweddaru i rieni ar sut y gallant gysylltu â'r ysgol/UCD
- Cynllunio dulliau cyfathrebu a chefnogaeth amgen i rieni/disgyblion, ar wahân i trwy ddefnyddio technoleg, os oes angen

## Llywodraethiant

Mae cyrff llywodraethu yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gefnogi lles arweinwyr ac aelodau eraill o staff i'w galluogi i barhau â'u busnes ysgol/UCD yn ystod y pandemig.  Maent hefyd yn parhau i fod â chyfrifoldebau statudol, er y dylai'r rhain gyd-fynd â chyngor wedi'i ddiweddaru gan y Llywodraeth.

**Llywodraethu cyffredinol**

Lle bo modd, dylai'r pennaeth/athro sydd â gofal a chadeirydd y llywodraethwyr/cadeirydd y pwyllgor rheoli gael cyswllt rheolaidd i drafod y sefyllfa barhaus (gan gynnwys lles y pennaeth/athro sydd â gofal a'r staff) ac i rannu unrhyw benderfyniadau y mae angen eu gwneud ar unwaith.

**Pennaeth/athro sydd â gofal a Phennaeth llywodraethwyr/Pennaeth pwyllgor rheoli**

Dylai'r pennaeth/athro sydd â gofal gysylltu ag aelodau'r corff llywodraethu/pwyllgor rheoli (a'r clerc os yw'n berthnasol) i:

- Rannu'r cyngor gan Lywodraeth Cymru yng ngoleuni Covid-19, yn enwedig mewn perthynas â busnes brys a difrys a threfnu cyfarfodydd tymhorol y corff llywodraethu/pwyllgor rheoli (bydd yr wybodaeth hon wedi'i rhannu gan awdurdodau lleol neu gonsortia)
- Gytuno ar y ffordd orau o gyfathrebu â phob llywodraethwr a chynnal cyfarfodydd rhithwir ar gyfer hanner cyntaf tymor yr haf
- Hysbysu llywodraethwyr am y trefniadau presennol yn eu hysgol/UCD o ran y materion a nodir isod.

**Corff llywodraethol/Pwyllgor rheoli**

- Cais i aelodau corff llywodraethol/pwyllgor rheoli ddiweddaru cadeirydd y llywodraethwyr/cadeirydd y pwyllgor rheoli neu’r clerc i’r llywodraethwyr â manylion cyswllt a threfniadau i rannu gwybodaeth os oes angen atal cyswllt â llywodraethwyr unigol o ganlyniad i salwch

**Cynllunio strategol**

- Os nad ydynt wedi'u cwblhau eisoes, cytuno ar gynllun wedi'i ddiweddaru ar gyfer argyfwng/cynllun parhad busnes i gynnwys gweithdrefnau i fynd i'r afael â materion yn ystod pandemig Covid-19 a chanlyniadau posibl e.e. uwch arweinwyr yn hunan ynysu/sâl, neb a all gynnig cymorth cyntaf ar gael i oruchwylio disgyblion
- Gwybodaeth am sut mae arweinwyr yn cyfleu gwybodaeth i rieni a staff – defnydd o gyfryngau cymdeithasol, gwefan yr ysgol, Hwb ac ati

**Dysgu o bell**

- Amlinelliad o drefniadau'r ysgol/UCD ar gyfer dysgu disgyblion o bell

**Staff**

- Diweddariad ar les pob aelod o staff
- Trefniadau y mae arweinwyr wedi'u sefydlu ar gyfer staff sy’n gweithio gartref

## Cefnogaeth benodol i ysgolion llai wneud defnydd o dechnoleg ac i ysgolion ac UCDau mwy cymhleth i reoli cymhlethdod

Mae llawer o'r canllawiau o ran gweithio gartref, defnyddio technoleg, trefniadau arferol a llywodraethu yn berthnasol i bob ysgol ac UCD. Fodd bynnag, mae'r canlynol yn rhoi gwybodaeth am faterion ychwanegol y gallai fod angen i ysgolion bach neu ffederal ac UCDau, neu ysgolion mawr iawn, eu hystyried.

**Ysgolion bach neu ysgolion ffederal neu UCDau**

**Ystyriwch:**

- ffyrdd o leihau'r teimlad o fod ar wahân i arweinwyr a staff
- gael system gymorth effeithiol ar gyfer gweithio ar draws y clwstwr/ffederasiwn fel y gall athrawon rannu syniadau ac adnoddau
- ffyrdd o sicrhau bod y llwyth gwaith ar gyfer athrawon yn rhesymol mewn dosbarthiadau lle mae nifer o ddisgyblion oedran gwahanol
- gael systemau cymorth TG priodol ar draws y clwstwr/ffederasiwn
- gael cynllun cyfathrebu a staffio wrth gefn sy'n cynnwys y corff llywodraethu/pwyllgor rheoli a'r awdurdod lleol neu'r awdurdod esgobaethol pe na bai pob aelod o staff a phob arweinydd ar gael ar gyfer gwaith

**Ysgolion mawr**

**Ystyriwch:**

- gael llinellau cymorth clir a phwynt cyswllt ar gyfer yr holl staff, gan gynnwys staff addysgu a rhai nad ydynt yn addysgu
- gael pyramid cyfathrebu strwythuredig i hidlo gwybodaeth
- gynllunio dosbarthiad cyfrifoldebau yn effeithiol a chynlluniau wrth gefn os nad yw staff ar gael
- enwebu aelodau o staff i gymryd cyfrifoldeb os na fyddai arweinwyr ar gael i weithio

## Gwneud defnydd cynhyrchiol o dechnoleg ddigidol

Mae ysgolion ac UCDau ledled Cymru yn dod i delerau â ffordd newydd o weithio, gan ddangos ymrwymiad ac ymroddiad wrth ddod o hyd i ffyrdd creadigol o gefnogi parhad busnes ysgolion/UCDau. Mewn llawer o achosion, bydd hyn yn golygu defnyddio technoleg ddigidol. Efallai y bydd ysgolion ac UCDau yn dymuno defnyddio'r grid canlynol i feddwl am y meysydd y maent yn symud ymlaen â hwy a'r rhai y gallent fod yn eu datblygu o ran defnyddio technoleg ddigidol. Mae'r cwestiynau hyn yn ategu'r canllawiau yn y ddogfen hon a'r adnoddau pellach a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol.

**Trefniadaeth a darpariaeth**

| Cwestiynau i'r ysgol/UCDau i'w gofyn | Deilliannau enghreifftiol | Dolenni |
|---|---|---|
| 1. Pa ddulliau o gefnogi gweithio digidol sydd orau i gefnogi ein gwaith? A oes angen inni fireinio'r rhain ymhellach? A oes digon o gymorth TG i alluogi'r ffyrdd hyn o weithio? (e.e. Hwb, Google Classroom, anfon copïau caled adref). A fydd teuluoedd, yn enwedig gyda mwy nag un plentyn, yn gallu ymdopi â'r ystod o gyfleoedd dysgu sy'n cael eu rhannu? | • Bydd arweinwyr yn rhoi eglurder i staff, rhieni a disgyblion am y llwyfannau y byddant yn eu defnyddio ar y cyd i gefnogi parhad busnes ysgolion/UCDau. | Dysgu o bell trwy Hwb<br><br>Fframwaith TG PISA 2021 (dolen Saesneg)<br><br>Cymorth a chanllawiau Office 365<br><br>Offer i gefnogi athrawon gyda dysgu o bell (dolen Saesneg)<br><br>Tudalennau 31-32 'Thoughts on professional development' |
| 2. Sut y byddwn yn cydweithio ac yn cefnogi ein gilydd â thechnolegau digidol? e.e. staff â sgiliau TGCh cryfach yn cefnogi'r rhai y mae angen iddynt ddatblygu eu sgiliau ymhellach | • Bydd arweinwyr yn sicrhau bod staff yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd ac yn cydweithio i gefnogi ei gilydd ac i rannu arbenigedd yn ystod y ffordd newydd hon o weithio. | |
| 3. Sut ydyn ni'n blaenoriaethu ac yn sefydlu trefn sy'n sicrhau bod staff ac arweinwyr yn gallu trafod a myfyrio ar ddulliau'r ysgol/UCD o gefnogi dysgu disgyblion e.e. trwy gyfarfodydd staff ar-lein? | • Mae arweinwyr yn datblygu strategaeth a chalendr clir ar gyfer cyfarfodydd rhithwir i gefnogi busnes ysgol neu UCD. | |

## Cwricwlwm a dysgu

| Cwestiynau i'r ysgol/UCD i'w gofyn | Deilliannau enghreifftiol | Dolenni |
|---|---|---|
| 4. Sut y byddwn yn defnyddio technoleg ddigidol i gefnogi dysgu yn y cartref? | • Bydd ysgolion ac UCDau yn parhau i gyfathrebu ac ail-werthuso'r hyn y maent yn ei ddisgwyl yn realistig gan eu staff a disgyblion o ran y profiadau dysgu y maent am eu darparu. | Tudalennau 18 -21 'A unified approach to distance learning in different contexts'<br><br>Tudalennau 33-34: 'To support parents, guardians and caregivers' |
| 5. Sut y byddwn yn defnyddio technoleg ddigidol i gyfathrebu â rhieni a'u cefnogi i gymryd rhan yn nysgu eu plant? | • Bydd ysgolion ac UCDau yn helpu rhieni i ddeall eu rôl wrth gefnogi dysgu disgyblion. Er enghraifft, rhoi arweiniad syml ar ddarllen, chwarae yn yr awyr agored, gosod tasgau dysgu fel teulu nad ydynt yn cynnwys amser sgrin. | |

## Cymorth ac ymgysylltu.

| Cwestiynau i'r ysgol/UCD i'w gofyn | Deilliannau enghreifftiol | Dolenni |
|---|---|---|
| 6. Sut y byddwn yn sicrhau cyswllt â disgyblion a staff i gefnogi eu gwaith a'u lles? | • Bydd ysgolion/UCDau yn sicrhau bod arweinwyr, staff a disgyblion yn gallu cyfathrebu â'i gilydd yn briodol, gan dalu sylw dyledus i egwyddorion diogelu'r ysgol. | Gweler y canllawiau ar Hwb<br><br>Diogelwch ar-lein: gweithwyr proffesiynol a rhieni<br><br>Hwb. Adnoddau ar ddiogelwch ar lein |
| 7. Sut y byddwn yn cefnogi ymgysylltiad disgyblion mewn tasgau dysgu o bell? | • Bydd ysgolion/UCDau yn nodi'r rhwystrau posibl i gynnwys disgyblion yn eu dysgu, yn cynnwys y rhai mwyaf agored i niwed, ac yn gweithio i roi gweithdrefnau ar waith i fynd i'r afael â hyn. | |
| 8. Sut y byddwn yn sicrhau ein bod ni a'n disgyblion yn aros yn ddiogel ar-lein? | • Bydd ysgolion/UCDau yn defnyddio canllawiau i atgyfnerthu polisïau a gweithdrefnau priodol. Maent yn sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu rhannu'n glir gyda disgyblion, staff a rhieni. | |

## Crynodeb i arweinwyr ysgolion/UCDau a llywodraethwyr o egwyddorion allweddol i gefnogi parhad busnes ysgol/UCD, gan ddefnyddio technoleg lle bo hynny'n briodol

| Busnes ysgol/UCD | Beth ddylai arweinwyr ei wneud? | Beth ddylai arweinwyr ei osgoi? | Beth ddylai arweinwyr ei ystyried? |
|---|---|---|---|
| **Gweithio o’r cartref** | Sicrhau bod lles staff (gan gynnwys arweinwyr) a disgyblion wrth wraidd unrhyw benderfyniadau a threfniadau.<br><br>Cysylltu’n rheolaidd ag aelodau staff ynghylch disgwyliadau ac ystyried eu lles ac ymrwymiadau/pwysau teuluol.<br><br>Bod yn hyblyg a galluogi staff i gydbwyso dyletswyddau gofalu a theulol â’u gwaith.<br><br>Sicrhau bod terfynau amser yn briodol ac yn realistig.<br><br>Cadw cysylltiad â chydweithwyr yn rheolaidd.<br><br>Annog cysylltiad cymdeithasol a chefnogaeth cymheiriaid. | Osgoi gosod terfynau amser byr i gwblhau tasgau | Canllawiau gan yr awdurdod lleol<br><br>https://www.hse.gov.uk/msd/dse/<br><br>Diogelu data<br><br>ANG<br><br>Canllaw gweithio o’r cartref gan ACAS:<br><br>https://www.acas.org.uk/working-from-home<br><br>A yw terfynau amser a disgwyliadau yn ystyried pwysau yn y cartref |

| Busnes ysgol/UCD | Beth ddylai arweinwyr ei wneud? | Beth ddylai arweinwyr ei osgoi? | Beth ddylai arweinwyr ei ystyried? |
|---|---|---|---|
| **Cyfarfodydd ac arferion** | Sicrhau bod llinellau cyfathrebu yn glir ac yn gytûn, eu bod yn gweithio a bod gan bob aelod o staff bwynt cyswllt a bod rhywun yn cysylltu â nhw yn rheolaidd er mwyn holi ynghylch eu lles.<br><br>Bod yn hyblyg o ran dulliau cyfathrebu ac ystyried defnyddio ystod o ddulliau.<br><br>Blaenoriaethu beth ddylir cael ei gyfathrebu a sefydlu arferion sydd yn gweithio i bawb.<br><br>Annog gwaith tîm a chydweithio er mwyn rhannu cyfrifoldebau, lleihau llwyth gwaith ac osgoi dyblygu gwaith.<br><br>Gwrando ar staff ac ystyried cyngor undebau.<br><br>Sefydlu canllawiau ar gyfer unrhyw gyfarfodydd rhithwir.<br><br>Sefydlu cynlluniau wrth gefn ar gyfer cyfathrebu a chyfrifoldebau arwain.<br><br>Sefydlu system ganolog ar gyfer gwybodaeth y gall staff gael mynediad iddi pan fo angen.<br><br>Sicrhau y gall prosesau recriwtio ac anwytho hanfodol barhau a bod cynlluniau wrth gefn lle nad yw hyn yn bosibl.<br><br>Darparu arweiniad clir ar absenoldeb salwch, cyfrifoldebau gofalu a threfniadau ar gyfer gweithio'n hyblyg.<br><br>Cadw cofnodion sylfaenol o staff a disgyblion sydd yn mynychu'r ysgol/UCD neu'r hwb ac unrhyw gostau ychwanegol yr eir iddynt.<br><br>Bod yn ymwybodol bod apiau sydd ar gael trwy'r platfform Hwb wedi'u cymeradwyo'n genedlaethol. | Osgoi gormodedd o wybodaeth a diweddariadau.<br><br>Osgoi gwneud gormod o alwadau ar staff o ran cyfarfodydd ac arferion.<br><br>Osgoi cynnal cyfarfodydd hirfaith heb amseroedd cychwyn a gorffen penodol.<br><br>Osgoi copïo pawb i bob e-bost neu ddiweddariad.<br><br>Osgoi tybio bod gan bawb fynediad at dechnoleg e.e. argraffydd.<br><br>Osgoi tybio y gall pawb fynychu cyfarfod ar amser penodol oherwydd gallai fod ganddynt gyfrifoldebau gofalu. | Y dechnoleg/ dyfeisiadau sydd ar gael i staff<br><br>Diogelwch/preifatrwydd offer, apiau a llwyfannau digidol (gan gynnwys cynnal diweddariadau technegol rheolaidd er mwyn lleihau risg) |

| Busnes ysgol/UCD | Beth ddylai arweinwyr ei wneud? | Beth ddylai arweinwyr ei osgoi? | Beth ddylai arweinwyr ei ystyried? |
|---|---|---|---|
| **Llywodraethiant – i arweinwyr ysgolion/UCDau** | Sefydlu a chytuno ar sianeli cyfathrebu clir gydag aelodau'r corff llywodraethol/pwyllgor rheoli a'r clerc os yw'n berthnasol.<br><br>Ailedrych ar swyddogaethau dirprwyedig y cytunwyd arnynt i alluogi llai o lywodraethwyr i wneud penderfyniadau busnes hanfodol.<br><br>Rhoi ddiweddariadau i aelodau'r corff llywodraethol/pwyllgor rheoli ar newidiadau i fusnes yr ysgol/UCD (gan gynnwys trefniant ar gyfer dysgu o bell i ddisgyblion a staff yn gweithio gartref), trefniadau i gefnogi disgyblion sy'n agored i niwed, trefniadau i ofalu am blant gweithwyr allweddol.<br><br>Bod yn ofalus ynghylch rhannu gwybodaeth bersonol/manylion cyswllt preifat am aelodau staff a allai o bosibl dorri GDPR.<br><br>Gweithio gyda chadeirydd y llywodraethwyr/cadeirydd y pwyllgor rheoli i greu arweinyddiaeth ddosranedig i ddelio ag unrhyw ddigwyddiadau/salwch.<br><br>Cysylltu'n rheolaidd â chadeirydd y llywodraethwyr/cadeirydd y pwyllgor rheoli am gefnogaeth, i ddarparu cyngor wedi'i ddiweddaru ac i rannu cyfrifoldebau.<br><br>Sicrhau bod gennych y wybodaeth ddiweddaraf am ganllawiau Llywodraeth Cymru, yr awdurdod lleol a'r awdurdod esgobaethol (os yw'n briodol) ynghylch llywodraethu a rhannwch yn briodol.<br><br>Cwblhau busnes brys e.e. cytuno ar gyllideb a staffio yr ysgol/UCD (wedi'i alinio â pholisi a gweithdrefnau awdurdod lleol awdurdod esgobaethol). | Osgoi rhannu gwybodaeth amherthnasol neu nad yw'n fater brys gyda'r corff llywodraethu/pwyllgor rheoli.<br><br>Osgoi cyfarfodydd diangen neu gyfarfodydd heb ffocws clir.<br><br>Osgoi cysylltu â phobl y tu allan i'r diwrnod gwaith oni bai eu bod wedi'u trefnu ymlaen llaw.<br><br>Osgoi cysylltu â phobl os ydyn nhw neu aelod o'u teulu yn sâl neu os ydyn nhw'n hunan-ynysu ac yn methu â chymryd rhan ym musnes yr ysgol/UCD. | https://llyw.cymru/gwybodaeth-ar-gyfer-cyrff-llywodraethu-ysgolion-coronafeirws<br><br>https://llyw.cymru/iechyd-lles-staff-ysgolion-dysgwyr-coronafeirws?_ga=2.179869479.261314239.1585213047-8999416.1572433332<br><br>Y defnydd o gyfarfodydd rhithwir<br><br>Pa fusnes nad yw'n fater brys ac y gellir ei ohirio tan ddyddiad diweddarach<br><br>Diweddariadau ac arweiniad diweddaraf y llywodraeth i lywodraethwyr<br><br>Cyngor ac arweiniad technegol syml ar gael<br><br>Cyngor gan eich ALl/Esgobaeth/Consortiwm/ Gwasanaeth Cymorth i Lywodraethwyr<br><br>P'un a yw pob cyfarfod yn â chworwm a bod cylch gorchwyl is-bwyllgorau yn cael ei ddilyn |

| **Busnes ysgol/UCD** | **Beth ddylai arweinwyr ei wneud?** | **Beth ddylai arweinwyr ei osgoi?** | **Beth ddylai arweinwyr ei ystyried?** |
|---|---|---|---|
| **Llywodraethiant – i lywodraethwyr** | Rhoi lles arweinwyr, gan gynnwys y pennaeth/athro sydd â gofal, staff eraill a disgyblion wrth wraidd eu gwaith a'u penderfyniadau ar bob lefel.<br><br>Bod yn ymwybodol o bwysau teuluol a phersonol ar staff a llywodraethwyr eraill.<br><br>Sicrhau bod manylion cyswllt yn gyfredol ac yn cael eu rhannu â phobl berthnasol.<br><br>Cytuno ar y ffordd orau i gyfathrebu â llywodraethwyr a'r clerc os yw'n berthnasol.<br><br>Sicrhau bod pob llywodraethwr yn ymwybodol o ddiogelwch ar-lein.<br><br>Sefydlu strwythur o arweinyddiaeth ddosranedig i ddelio ag unrhyw salwch neu ddiffyg argaeledd.<br><br>Sicrhau bod y Cynllun Brys/Cynllun Parhad Busnes yn cael ei ddiweddaru i gwmpasu'r pandemig cyfredol.<br><br>Ailedrych ar swyddogaethau dirprwyedig a chylch gorchwyl cytunedig i alluogi llai o lywodraethwyr i wneud penderfyniadau busnes hanfodol.<br><br>Sicrhau bod gan lywodraethwyr drosolwg o drefniadau cychwynnol yr ysgol/UCD ar gyfer dysgu disgyblion o bell, lles disgyblion a staff, trefniadau gweithio gartref staff, trefniadau i ddarparu gofal plant i weithwyr allweddol, trefniadau i gefnogi a monitro lles disgyblion bregus a difreintiedig. | Osgoi tybio bod gan bob llywodraethwr ddealltwriaeth lawn o'r dechnoleg ddiweddaraf a/neu fynediad at offer TG a'r rhyngrwyd.<br><br>Osgoi rhoi galwadau afresymol neu ddiangen ar arweinwyr ysgolion/UCDau.<br><br>Osgoi cynnal cyfarfodydd diangen neu hir.<br><br>Osgoi cysylltu â phobl y tu allan i oriau swyddfa, (oni bai eu bod wedi'u trefnu ymlaen llaw trwy gydsyniad y naill a'r llall ac at ddiben penodol).<br><br>Osgoi delio â busnes nad yw'n fater brys os gellir ei ohirio tan ddyddiad diweddarach. | [https://llyw.cymru/gwybodaeth-ar-gyfer-cyrff-llywodraethu-ysgolion-coronafeirws](https://llyw.cymru/gwybodaeth-ar-gyfer-cyrff-llywodraethu-ysgolion-coronafeirws)<br><br>[https://llyw.cymru/iechyd-lles-staff-ysgolion-dysgwyr-coronafeirws](https://llyw.cymru/iechyd-lles-staff-ysgolion-dysgwyr-coronafeirws)<br><br>Canllawiau Llywodraeth Cymru ar lywodraethu<br><br>Ffyrdd o gadw mewn cysylltiad â llywodraethwyr unigol<br><br>Os yw'n bosibl cynnal rhith-gyfarfodydd<br><br>Cefnogaeth i les y pennaeth/athro sydd â gofal ac arweinwyr eraill<br><br>Y ffordd orau o ddosbarthu arweinyddiaeth o fewn y corff llywodraethu/pwyllgor rheoli<br><br>Osgoi cysylltu â llywodraethwyr neu staff ysgol/UCD os ydyn nhw neu aelod o'u teulu yn sâl, neu os nad ydyn nhw ar gael am resymau personol eraill.<br><br>Osgoi dod â chyfnod gwasanaeth unrhyw lywodraethwyr i ben, nes y gellir gosod trefniadau yn eu lle |

| Busnes ysgol/UCD | Beth ddylai arweinwyr ei wneud? | Beth ddylai arweinwyr ei osgoi? | Beth ddylai arweinwyr ei ystyried? |
|---|---|---|---|
| | Sicrhau bod gennych y wybodaeth ddiweddaraf am ganllawiau Llywodraeth Cymru, yr awdurdod lleol a'r awdurdod esgobaethol (os yw'n briodol) a gweithredu yn unol â hynny.<br><br>Delio â busnes brys e.e. cytuno ar gyllideb a staffio yr ysgol/UCD (wedi'i alinio â pholisi a gweithdrefnau awdurdod lleol / awdurdod esgobaethol). | | |
| **Cefnogaeth benodol i ysgolion llai ac UCDau wneud defnydd o dechnoleg ac i ysgolion mwy cymhleth i reoli cymhlethdod** | **Ysgolion bach / Ffederal ac UCDau**<br><br>Ystyried ffyrdd o leihau'r teimlad o unigedd ymhlith arweinwyr a staff.<br><br>Ystyried a oes system gymorth effeithiol ar gyfer gweithio ar draws y clwstwr/ffederasiwn fel y gall athrawon rannu adnoddau.<br><br>Sicrhau bod y llwyth gwaith ar gyfer athrawon dosbarthiadau lle mae disgyblion o amrywiaeth o oedrannau yn rhesymol.<br><br>Ystyried a oes cefnogaeth TG briodol ar waith.<br><br>Sicrhau bod cynlluniau wrth gefn sy'n cynnwys yr awdurdod lleol a'r corff llywodraethu/pwyllgor rheoli pe na bai staff ar gael i weithio.<br><br>**Ysgolion mawr**<br><br>Sicrhau bod llinellau cefnogaeth i'r holl staff gan gynnwys staff addysgu a staff nad ydyn nhw'n addysgu.<br><br>Sefydlu pyramid cyfathrebu i hidlo gwybodaeth.<br><br>Sicrhau bod cyfrifoldebau yn cael eu dosbarthu'n effeithiol a chynlluniau wrth gefn os na fydd staff ar gael. | **Ysgolion bach / Ffederal ac UCDau**<br><br>Osgoi disgwyliad i athrawon dosbarthiadau lle mae disgyblion o amrywiaeth o oedrannau baratoi gwaith gwahaniaethol manwl ar gyfer pob grŵp. | |

| **Busnes ysgol/UCD** | **Beth ddylai arweinwyr ei wneud?** | **Beth ddylai arweinwyr ei osgoi?** | **Beth ddylai arweinwyr ei ystyried?** |
|---|---|---|---|
| **Defnyddio technoleg** | Sicrhau bod disgwyliadau'n rhoi sylw dyledus i les athrawon unigol, disgyblion a rhieni a'r hyn sy'n ymarferol gyraeddadwy yn yr hinsawdd sydd ohoni.<br><br>Ystyried cyd-destun yr ysgol/UCD a'i chymuned, y dechnoleg sydd ar gael, cysylltedd a bod yn hyblyg o ran dull.<br><br>Dewis dulliau dysgu sy'n hylaw, yn berthnasol, yn ddeniadol ac yn briodol i oedran a datblygiad y disgyblion.<br><br>Cydbwyso gweithgareddau digidol gyda rhai heb sgrin. | Osgoi gosod disgwyliadau afrealistig o'r hyn y gellir ei gyflawni, a allai effeithio'n negyddol ar y profiad gweithio gartref.<br><br>Osgoi tybio mynediad cyfartal i dechnoleg, cysylltedd ac offer i bawb. | Diogelu<br><br>Cod ymddygiad ar gyfer gweithio ar-lein<br><br>Mynediad at dechnoleg (gan gynnwys cysylltedd rhyngrwyd) |

Mae arweiniad pellach ar gael gan undebau a chyrff proffesiynol.